MOSTYN

Disgrifiad swydd

Cydlynydd Dysgu a Chynhwysiant Cymdeithasol (gofal mamolaeth)

Yn atebol i'r: Rheolwr Ymgysylltu

Yn gyfrifol am: Cyllidebau sy'n benodol i'r meysydd cyfrifoldeb

Graddfa Gyflog: £10.00 yr awr, 7.5 awr yr wythnos, contract gofal cyfnod mamolaeth (am hyd at 12 mis) yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018.

Pwrpas:

Sefydlu a chynnal cysylltiadau ag ysgolion (cynradd ac uwchradd), colegau a grwpiau cymunedol er mwyn cefnogi nodau a gweledigaeth artistig MOSTYN.
Gwneud hyn mor hygyrch, diddorol a difyr i fwy nag un cynulleidfa (gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion, cymdeithasau dysgu, teuluoedd a grwpiau cymunedol) gyda'r flaenoriaeth i gynyddu nifer a'r math o ymwelwyr sy'n dod i'r oriel a pha mor aml maent yn dod, a thrwy hynny gyfrannu at ddull entrepreneuraidd MOSTYN o ymdrin â chynaliadwyedd, perthnasedd cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol.

Y prif ddyletswyddau:

- Gweithio gyda'r Rheolwr Ymgysylltu i sefydlu arlwy MOSTYN ar gyfer yr uchod, a chydlynu'r modd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- Cynllunio a chyflwyno gweithdai yn yr oriel, mewn ysgolion a'r gymuned (gan roi ystyriaeth i ofynion Anghenion Addysgol Arbennig).
- Bod mewn cysylltiad ag athrawon, staff mewn lleoliadau cymunedol, Rheolwr Ymgysylltu MOSTYN a'r tîm yn ehangach ym MOSTYN, a hynny gan weithio gyda chyllideb benodol ar gyfer pob sesiwn gweithdy.
- Cynnal asesiadau risg o weithgareddau.
- Cadw cofnodion a darparu adroddiadau pan fo'n briodol.
- Cyfrannu at yr wybodaeth am Ddysgu ac Ymgysylltu ar wefan MOSTYN, ac ar y cyd â'r Rheolwr Cysylltiadau â'r Gynulleidfa a'r Rheolwr Ymgysylltu, datblygu a dosbarthu cynnwys perthnasol drwy weithgareddau rhwydweithio cymdeithasol MOSTYN, yn unol â chanllawiau'r sefydliad.

Fel pob gweithiwr arall, mae disgwyl i'r Cydlynydd Dysgu a Cynhwysiant Cymdeithasol wneud y canlynol:-

- Cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eu cydweithwyr
- Sicrhau diogeledd yr oriel a rhannau eraill o MOSTYN
- Bod yn eiriolwr dros MOSTYN, gyda gwybodaeth dda am holl arlwy'r oriel, a hyrwyddo ei gweledigaeth a'i gweithgareddau
- Cydweithio â'r holl adrannau eraill
- Sicrhau bod systemau, polisïau a phrosesau MOSTYN yn cael eu dilyn wrth gyflawni'r dyletswyddau.

Mae'n bosibl y bydd angen cyflawni dyletswyddau rhesymol eraill er mwyn cyflawni'r swydd yn llwyddiannus ac i gyflawni nodau'r sefydliad.

Manyleb y person (yn fras):

Sgiliau:

- Gallu trefnu eich gwaith eich hun a gwaith pobl eraill wrth gyflawni'r swydd.
- Dawn greadigol, ysbryd entrepreneuraidd a dyfeisgarwch er mwyn creu a chyflwyno rhaglen flaengar ond pragmatig o weithgareddau.
- Disgrifio, trafod a chyflwyno materion yn ymwneud â chelfyddyd gyfoes ac addysgu a chynhwysiant i wahanol gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid a chyllidwyr, a hynny gan ddefnyddio gwahanol eirfa a dulliau yn ôl y cynulleidfaoedd targed a'r siaradwyr.
- Dealltwriaeth glir o'r cwricwlwm o ran celf a dylunio, a gallu creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd wrth weithio gydag arddangosfeydd MOSTYN.
- Gwybodaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch, Plant ac Oedolion Agored i Niwed.
- Gallu cyd-dynnu'n dda â phlant ac oedolion, gan greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer gweithio.
- Mae'n hanfodol cael sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.
- Mae'r gallu i yrru car a bod â char i'w ddefnyddio yn hanfodol (telir costau teithio).

Profiad:

- Mae profiad blaenorol o weithio gyda phlant mewn ysgol, oriel neu sefyllfa gymunedol yn rhywbeth hanfodol.
- Mae profiad o weithio mewn fframwaith cynhwysiant cymdeithasol yn rhywbeth dymunol iawn.
- Mae profiad o addysgu yn rhywbeth dymunol.
- Mae profiad blaenorol o asesu risg yn rhywbeth dymunol.

Oriau gwaith:
Swydd ran amser yw hon, yn gweithio 7.5 awr yr wythnos. Penderfynir ar yr oriau hyn drwy drafod â'r Rheolwr Ymgysylltu. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd angen gweithio gyda'r nosau ac ar y penwythnos i gyflawni'r swydd.

Y Broses Ymgeisio
Anfonwch CV a llythyr, gan amlinellu sut rydych yn addas ar gyfer y swydd, eglurhaol at alfredoc@mostyn.org
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: **Dydd Iau 8 Tachwedd 2018 (17:00hrs)**